

Gwadu ein ffydd

“Dywedodd Iesu wrtho, ‘Myfi yw’r ffordd a’r gwirionedd a’r bywyd.’” (adn. 6)

Beth am ddarllen Ioan 14:1–14 ac yna myfyrio

Ddoe, bu i mi sôn am y gair allweddol mewn trafodaethau heddiw sef ‘plwraliaeth’, hynny yw ein bod yn derbyn bod pob ffydd yn gyfartal ac yn gyfwerth.

Ychydig flynyddoedd yn ôl yn Eglwys St Martins yn y Fields yn Llundain, cynhaliwyd gwasanaeth lle caed Hindŵiaid, Bwdhyddion, Mwslemiaid a Christnogion yn cymryd rhan ar lefel gyfartal, y pedwar yn cydnabod eu ffydd gyffredin. Darllenwyd o wahanol lyfrau’r gwahanol grefyddau. Darllenodd y cynrychiolydd Bwdhaidd o’r *Tripitaka*, yr Hindŵ o’r *Bhagavad Gita*, y Mwslim o’r *Qur’an*, a’r Cristion o’r Beibl. Bu i’r wasg gyhoeddi’r gwasanaeth hwn fel carreg filltir nodedig yn hanes crefydd. Yn fy marn i, roedd yn wadiad o’r ffydd Gristnogol ond bu iddo esgor ar nifer o wasanaethau cyffelyb sydd bellach yn cael eu cynnal ar draws y byd.

Rwy’n hoff iawn o’r hyn a ddywed Dr. W. A. Visser Hooft yn ei lyfr *No Other Name* lle mae’n gwadu plwraliaeth. Mae’n hen bryd i Gristnogion i ail-ddarganfod calon y ffydd sef bod Iesu Grist ddim wedi dod i wneud cyfraniad i fywyd crefyddol y byd, ond yn hytrach fod Duw, ynddo ef, wedi cymodi’r byd ag ef ei hun. Wrth gwrs, mae hyn yn ein gadael yn agored i’r honiad ein bod yn mynnu unigrywiaeth, ond nid oes yr un Cristion sydd am gau allan unrhyw un o deyrnas Dduw. Gall pawb ddod yn yr un modd ag y mae gan y byd i gyd yr hawl i’r gorau o’r hyn y mae’r byd wedi ei ddysgu. Felly y mae gan y byd i gyd yr hawl i ddysgu am Dduw. Mae’r gorau y mae’r byd wedi ei ddysgu am Dduw ym mherson yr Arglwydd Iesu Grist. Nid yn unig hwn yw’r gorau y mae’r byd wedi ei weld, dyma’r un gorau a wêl y byd.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Actau 4:5–12; 1 Ioan 4:1–3

Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth oedd datganiad yr apostol Ioan?
2. Beth yw prawf gwir ffydd?

Gweddi

O Iesu, rwyf mor falch i ti ddweud ‘Myfi yw y ffordd’. Diolch nad ‘ffordd’ ymhlith ffyrdd eraill ond mai ti yw y Ffordd, ein hunig obaith am iachawdwriaeth. Rwyf am fod yn was ufudd i ti am byth. Amen.